| | |
|---|---|
| Pwyllgor: | **Cabinet** |
| Dyddiad y cyfarfod: | **19eg o Orffenaf 2023** |
| Testun yr Adroddiad: | Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2022/23 |
| Deiliad Portffolio: | Y Cynghorydd Steven Thomas, Arweinydd / Aelod Gweithredol dros y Gwasanaethau Corfforaethol |
| Adroddiad wedi'i Gyflwyno gan: | Sarah King, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Llywodraethu a Phartneriaethau |

| Llwybr Adrodd | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth** | **Tîm Arwain Corfforaethol** | **Deiliad Portffolio / Cadeirydd** | **Pwyllgor Archwilio Llywodraethu** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** | **Pwyllgor Craffu** | **Cabinet** | **Y Cyngor** | **Arall (nodwch)** |
| | 01.06.23 | | | | 22.06.23 | 19.07.23 | | |

## 1. Pwrpas yr Adroddiad

Pwrpas yr Adroddiad yw cyflwyno Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2022/23 i'r Cyngor.

## 2. Cwmpas a Chefndir

Nod Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 oedd moderneiddio'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

Arweiniodd y Mesur hwn at Safonau'r Gymraeg. Nodau'r Safonau yw:

- Gwella'r gwasanaethau y gall siaradwyr Cymraeg ddisgwyl eu cael gan sefydliadau yn Gymraeg.
- Cynyddu'r defnydd a wna pobl o wasanaethau Cymraeg.
- Ei gwneud yn glir i sefydliadau beth sydd angen iddynt ei wneud o ran y Gymraeg.
- Sicrhau bod lefel priodol o gysondeb o ran y dyletswyddau a osodir ar gyrff yn yr un sectorau.

O dan Safonau 158, 164 a 170, rhaid i'r Awdurdod Lleol gynhyrchu Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg sy’n ymdrin â’r ffordd y mae’r Cyngor wedi cydymffurfio â’r safonau darparu gwasanaethau, safonau llunio polisïau a’r safonau gweithredu.

Mae Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg ar gyfer 2022/23 (Atodiad 1) yn nodi'r uchafbwyntiau a darnau allweddol o waith, sy'n dangos sut yr ydym ni fel Cyngor wedi ymdrechu i fodloni’r gofyniad a osodwyd gan yr Hysbysiad Cydymffurfio â Safonau’r Gymraeg a gyhoeddwyd ym mis Medi 2015.

3. **Opsiynau ar gyfer Argymhelliad**

3.1 Bu’r Tîm Arwain Corfforaethol yn ystyried Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2022/23 (Atodiad 1) ym mis Mehefin 2023.

3.2 Pwyllgor Craffu Corfforaethol a Pherfformiad hefyd yn ystyried yr adroddiad ar 22ain Mehefin 2023, ac argymhellodd Opsiwn 1 i'r Cabinet.

3.3 **Opsiwn 1**

Cabinet i ystyried a chytuno Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2022/23 drafft, fel y’i cyflwynwyd.

**Opsiwn 2**

Cabinet i ystyried Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2022/23 drafft a darparu unrhyw sylwadau cyn ei gyhoeddi erbyn 30ain Mehefin 2023.

4. **Tystiolaeth o sut mae'r pwnc hwn yn cefnogi cyflawniad y Cynllun Corfforaethol / Cyfrifoldebau Statudol / Cynllun Llesiant Blaenau Gwent**

Mae gofyniad statudol ar y Cyngor i lunio a chyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar weithredu Safonau’r Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cydnabod bod bodloni ein gofynion o ran y Gymraeg yn faes polisi allweddol a fydd yn galluogi'r Cyngor i gyflawni ei uchelgais.

5. **Goblygiadau yn Erbyn Pob Opsiwn**

5.1 ***Effaith ar y Gyllideb (effaith tymor byr a hirdymor)***

Gallai methu â chydymffurfio â’r gofyniad i lunio adroddiad blynyddol arwain at gosbau ariannol gan Gomisiynydd y Gymraeg. Y ffigwr a ddyfynnwyd yw £5,000 oherwydd toriad. Mae gofyniad ariannol bychan ar gyfer cyfieithu'r Adroddiad Blynyddol i'r Gymraeg. Bydd angen cwrdd â hyn o'r gyllideb Polisi a Phartneriaethau gan nad oes cyllideb gorfforaethol bellach ar gyfer cyfieithu i'r Gymraeg.

5.2 ***Risg gan gynnwys Camau Gweithredu Lliniaru***

Mae risg i enw da’r Cyngor os na chaiff yr Adroddiad Blynyddol ei gyhoeddi, neu os na chaiff ei gyhoeddi mewn pryd.

Gall Comisiynydd y Gymraeg ymchwilio heb rybudd ac mae ganddo’r awdurdod i ennill pŵer mynediad. Gallai unrhyw dystiolaeth o fethiant i gydymffurfio â Safon arwain at gosb.

5.3 ***Cyfreithiol***

Mae gofyniad statudol ar y Cyngor i lunio a chyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar weithredu Safonau’r Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

5.4 ***Adnoddau Dynol***

Mae Datblygu Sefydliadol wedi darparu'r data crai ar gyfer y dadansoddiad staff. Mae'r data yn dangos bod y Cyngor wedi adnabod 45 aelod o staff o 2,959 o staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl sy'n gynnydd o 11 aelod o staff o gymharu â ffigurau 2021/22. Mae'r cynnydd hwn yn gyson ar draws y Cyngor gyda ffigurau'n codi ar draws yr holl Gyfarwyddiaethau.

Cyfanswm y staff sydd â sgiliau siarad Cymraeg yn amrywio o ‘rhugl’, ‘eithaf da’, ‘cymedrol’ i ‘ychydig’ yw 537 (18%). Mae hyn yn gynnydd o 67 aelod o staff ers cyfnod adrodd 2021/22.

6. **Tystiolaeth Ategol**

6.1 ***Gwybodaeth a Data Perfformiad***

Canfyddiadau nodedig a ddeilliodd o’r Adroddiad Blynyddol:

- Agorwyd 1 Ymchwiliad Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg (CS092) a derbyniwyd 0 cwyn gan y cyhoedd.
- Mae nifer y gweithwyr sydd â sgiliau siarad Cymraeg ar 31 Mawrth 2020 yn cyfateb i 594 (18%) o staff; gallant siarad Cymraeg yn ‘rhugl’, ‘eithaf da’, ‘cymedrol’, neu ‘ychydig’. Fodd bynnag, mae ychydig o dan hanner cyfanswm y staff yn datgan nad oes ganddynt unrhyw allu i siarad Cymraeg (45%). Gostyngiad cadarnhaol o 5% ers y cyfnod adrodd diwethaf.
- Addysg sydd â'r siaradwyr Cymraeg mwyaf rhugl (30).

6.2 ***Canlyniad disgwyliedig i'r cyhoedd***

Mae cynhyrchu a chyhoeddi’r adroddiad yn dangos ymrwymiad y Cyngor i’r gymuned Gymraeg ei hiaith o fewn yr ardal.

6.3 ***Cyfranogiad (ymgynghori, ymgysylltu, cyfranogiad)***

Bu Rhwydwaith Cymraeg Blaenau Gwent, grŵp a oedd yn cynnwys grwpiau cymunedol Cymraeg lleol a sefydliadau partner yn ystyried yr adroddiad blynyddol ac yn darparu enghreifftiau o astudiaethau achos o waith a wnaed

yn ystod y cyfnod adrodd a gyfrannodd at gyflawni ein hymrwymiadau o ran y Gymraeg.

Mae'r Cyngor yn ymgysylltu â phob isadran i sicrhau bod Safonau'r Gymraeg yn cael eu deall. Mae tudalen fewnrwyd bwrpasol ar gael gyda chanllawiau allweddol i staff sy'n hawdd eu defnyddio.

6.4 ***Meddwl yn y tymor hir (cynllunio ymlaen llaw)***

Mae gan Flaenau Gwent Strategaeth Iaith Gymraeg ers 1993 sy'n dangos ymrwymiad hirdymor i'r Gymraeg. Mae Blaenau Gwent wedi ymrwymo i ddiogelu a hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y fwrdeistref a chynhyrchwyd Strategaeth Hybu'r Gymraeg yn unol â Safon 145. Mae hybu'r Gymraeg hefyd yn cyd-fynd â nodau Bil Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru, yn benodol, y nod i ddarparu 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.'

6.5 ***Ffocws Ataliol***

Bydd bodloni'r gofynion a osodwyd gan Safonau'r Gymraeg, sy'n cynnwys cwblhau'r Adroddiad Blynyddol, yn anelu at atal risg i enw da y Cyngor ac atal risg ariannol.

6.6 ***Cydweithio / gweithio mewn partneriaeth***

Mae Blaenau Gwent yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol cyfagos a rhanbarthol i gefnogi hybu'r Gymraeg, gan gynnwys fforymau a rhwydweithiau partneriaeth rhanbarthol (er enghraifft, Rhwydiaith, Deddff ac ati).

6.7 ***Integreiddio (ar draws meysydd gwasanaeth)***

Drwy ystyried ymagwedd gorfforaethol tuag at y Gymraeg mae'r Cyngor yn dangos ei fod yn mabwysiadu ymagwedd integredig.

6.8 ***Datgarboneiddio a Lleihau Allyriadau Carbon***

Nid oes gan yr adroddiad hwn unrhyw oblygiadau uniongyrchol o ran datgarboneiddio neu leihau allyriadau carbon.

6.9 ***Asesiad Effaith Integredig (AEI)***
(Bydd angen Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau bellach ar gyfer pob penderfyniad, adolygiad polisi neu weithredu polisi) *I'w nodi nad oes angen cwblhau templed sgrinio mwyach*

Mae'r adroddiad yn ystyried Cydraddoldeb drwyddo draw ac yn ceisio sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gwerthfawrogi ac nad yw'n cael ei thrin yn llai ffafriol ar draws y Cyngor.

7. **Trefniadau Monitro**

7.1 *Nodwch sut bydd y gwaith yn cael ei fonitro e.e. drwy drefniadau craffu neu reoli perfformiad y gyfarwyddiaeth.*

Mae Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2022/23 i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol a'r Cabinet.

**Dogfennau Cefndir / Dolenni Electronig**

*Cyflwynir Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2022/23 yn Atodiad 1.*